



Cyfres Stori Duw

Gwers 40

Marwolaeth Iesu

Luc 23: 13–49

Nod:

Roedd yn rhaid i Iesu farw drosom ni, i ni gael maddeuant pechodau a'r cynnig o fywyd newydd.

Adnodau:

Luc 23: 13–49

Cefndir:

Cychwynnwyd drwy adolygu'r wers ddiwethaf. Ydyn nhw'n cofio lle mae Iesu? Beth wnaeth Pedr? Mae'r stori yn parhau heddiw. Cawn weld beth oedd canlyniad achos llys Iesu, a beth ddiwyddodd i Pedr. Ond yn gyntaf rydym am gael cwis.

Gweithgaredd:

Cwis arwyr. Rhannwch y dosbarth yn 3 neu 4 o dimoedd. Rhowch bapur a phensil iddynt ysgrifennu'r atebion. Gofynnwch y cwestiynau i gyd yn gyntaf, ac yna rhoi'r atebion ar y diwedd. Gallwch roi gwobr i'r tîm gyda'r sgôr uchaf.

1. Beth ydi enw'r papur newydd mae Clark Kent yn gweithio iddo?

- a. Daily Prophet
- b. Daily Bugle
- c. Daily Planet (✓)

2. Beth ydi enw'r dyn sy'n gwisgo siwt 'Batman'?

- a. Wayne (✓)
- b. Wonder
- c. Williams

3. Beth ydi enw'r ddinas mae Batman yn ceisio'i hachub?

- a. Metropolis

- b. Chicago
- c. Gotham (✓)

4. Beth ydi enw'r adeilad mae'r 'Fantastic Four' yn byw ynddo?

- a. Four Seasons Hotel
- b. Baxter building (✓)
- c. Empire State building

5. Pa arwr sydd â bwtler o'r enw Alfred?

- a. Spider-man
- b. Xavier
- c. Batman (✓)

6. Matt Murdock ydi enw'r dyn tu ôl i fwgwd y 'Daredevil', ond beth yw ei waith?

- a. Heddwas
- b. Cyfreithiwr (✓)
- c. Barnwr

7. Sawl lliw gwahanol o 'Kryptonite' sydd i'w cael?

- a. Un
- b. Dau (✓)
- c. Pump

8. Beth ydi enw'r metel y mae crafangau Wolverine wedi eu gwneud allan ohono?

- a. Titanium
- b. Katanium
- c. Adamantium (✓)

9. Beth ydi 'moto' bywyd Spider-Man?

- a. With great power comes great responsibility (✓)
- b. With great power you have no responsibilities
- c. You must always use your powers responsibly

10. Beth ydy enw 'side-kick' Batman?

- a. Karl
- b. Robin (✓)
- c. Charles

Wedi rhoi'r atebion i'r cwestiynau, eglurwch eich bod yn edrych ar arwr tra gwahanol i'r rhai sydd yn y ffilmiau. Mae Iesu yn arwr gwell na'r rhain i gyd:

Mae o'n gyfoethocach – ef sydd berchen y byd i gyd!

Mae o'n gryfach – gall wneud unrhyw beth, does dim byd yn amhosibl iddo.

Mae'n glyfrach – mae Iesu yn gwybod pob dim am bawb- ac mae'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'n arwr gwell oherwydd ei fod yn rhoi'r cynnig i bawb gael eu hachub ganddo. Rydym yn barod wedi clywed geiriau fel gwaredwr ac achubwr yn cael eu defnyddio i ddisgrifio Iesu. Gadewch i ni ddarllen yr hanes am sut mae Iesu'n achub.

Darllen yr adnodau:

Luc 23: 13–49 Mae cryn dipyn o adnodau i'w darllen heddiw felly gofynnwch i'r bobl ifanc ddarllen tair adnod yr un, ac os oes adnodau yn weddill, darllenwch chi hwy.

Trafodaeth:

Dyma rai cwestiynau i ysgogi trafodaeth:

1. Beth oedd Iesu wedi cael ei ganfod yn euog ohono? (ad 14–15 dim byd) Roedd Iesu wedi byw bywyd perffaith, heb wneud unrhyw beth o'i le. Yr Iddewon oedd yn pwyso i'w Groeshoelio, doedd Pilat ddim yn gallu gweld bai ar yr Iesu. Ond roedd y dorf yn gweiddi ar Pilat, ac yn y diwedd fe roes i mewn iddynt.

2. Beth oedd enw'r lle y cafodd Iesu ei groeshoelio a chyda pwy? (ad 33. Y Benglog, gyda dau droseddwr)

3. Sut oedd Iesu'n cael ei drin pan oedd ar y groes? (ad 35 roedd y bobl yn gwneud hwyl am ei ben) Roedd Croeshoelio yn un o'r ffyrdd mwyaf poenus i farw, felly roedd Iesu mewn llawer o boen, ond sylwch beth oedd ei

ymateb i beth oeddent yn ei wneud? (ad 34 Roedd yn gofyn i Dduw faddau iddynt!) Dyma sut y gallwn wybod fod Iesu yn Dduw sy'n ein caru, ei fod hyd yn oed yn caru'r bobl oedd yn ei ladd a gwneud hwyl am ei ben.

4. Beth ddigwyddodd cyn i Iesu farw?

(ad 44 aeth hi'n dywyll am dair awr dros yr holl wlad, ad 45 cafodd y llen oedd yn y deml ei rwygo, er mwyn dangos y gall unrhyw un ddod at Dduw drwy Iesu).

Bu Iesu farw ar y groes fel ein bod ni'n gallu dod i adnabod Duw, a bod mewn perthynas â Duw drwyddo. Rhoddodd Iesu bopeth er ein mwyn ni, er mwyn i ni gael dod yn blant i Dduw. Fe wnaeth adfer y berthynas a gollwyd yng ngardd Eden, fel y soniwyd amdani yn y gwersi cyntaf.

Gweithgaredd:

Edrychwch ar Atodiad 22 er mwyn creu croes i gofio beth wnaeth Iesu. Bydd angen un ai darn hir o balmwydd neu gellid defnyddio un ai rhuban a glud. Gellir defnyddio'r amser yma i drafod gyda'r unigolion beth maent yn ei feddwl am y wers heddiw. Oedden nhw'n sylweddoli, fod pechod yn beth mor ddifrifol, bod angen i Iesu farw er mwyn i ni allu cael maddeuant am ein pechod?

Amser Addoli:

Cafodd Iesu ei drin yn ofnadwy, er nad oedd wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Nid oedd rhaid i Iesu farw, ond fe ddewisodd farw, er mwyn cymryd y gosb am bobeth drwg yr ydym ni erioed wedi ei wneud. Yr unig beth sydd angen i ni ei wneud ydi rhoi ein ffydd ynddo, a bydd yn maddau i ni am bopeth, ac yn aros gyda ni am byth.

Mae hwn yn rhywbeth i bawb ddatrys yn bersonol, felly rhowch y cyfle i bawb weddio yn ddistaw eu hunain – gallant ddiolch i Iesu am farw drostynt, neu ofyn i Dduw am help i ddeall hyn. Amen